# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion Cryno o'r Pwyllgor

### (CC(3)-15-10) : 16 Tachwedd 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_16_11_2010&t=0

**Amser: 9.23 – 11.00**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Tystion**
**Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant**

Eleanor Marks, Pennaeth yr Is-adran Cymunedau
Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tania Hayward, Cydgysylltydd Rhianta, Blaenau Gwent, yn cynrychioli'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Shelley Davies, Rheolwr Partneriaeth, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Powys

**Staff y Pwyllgor**

Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sarah Hatherley, Ymchwilydd, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, cynghorydd Cyfreithiol

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9.23 – 9.24)

1.1Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies, ac roedd Lynne Neagle yn dirprwyo ar ei rhan.

### 2: Dilyn yr ymchwiliad i Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb – casglu tystiolaeth (9.23 – 10.13)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog wrth iddynt ddilyn yr ymchwiliad i Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb

**Camau i'w cymryd**

Bydd y Dirprwy Weinidog yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch mor llwyddiannus y bu'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion yn cydgysylltu polisïau addysg er mwyn dileu tlodi plant.

Y Clerc i anfon y cwestiynau a oedd heb eu gofyn yn ystod y cyfarfod.

Y Clerc i drefnu sesiwn friffio yn y Flwyddyn Newydd ar Deuluoedd yn Gyntaf.

### 3: Ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith – Casglu tystiolaeth (10.13 – 10.55)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith.

**Camau i'w cymryd**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch faint o Awdurdodau Lleol trwy Gymru sy'n defnyddio Rhaglen y Blynyddoedd Rhyfeddol.

CLlLC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch faint o Awdurdodau Lleol sy'n defnyddio protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol.

CLlLC i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am faint o Awdurdodau Lleol sy'n defnyddio dull ymgysylltu â rhieni ac yn darparu cefnogaeth heb ei chyflwyno fel cefnogaeth i rianta hy cefnogaeth gyffredinol yn hytrach na chefnogaeth wedi'i thargedu.

## 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5: Ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith (10.55 – 11.00)

5.1 Bu'r Aelodau'n trafod y prif faterion sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad.

**6: Papurau i'w nodi**

CYP(3)-15-10 (p3) – Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

CYP(3)-15-10 (p4) – Gwybodaeth ychwanegol gan Ganolfan y Blynyddoedd Rhyfeddol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Tachwedd
CYP(3)-14-10 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 2 Tachwedd 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2010**